

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Dinas Casnewydd yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydwethredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Gan nad oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn destun arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2017/18, caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- Adolygiad o hunanasesiad plant sy'n derbyn gofal Cyngor Dinas Casnewydd (Ionawr 2018) a'r cyfarfod her dilynol a gynhaliwyd â swyddogion ym mis Ebrill 2018.
- Adolygiad o adroddiad hunanwerthuso Cyngor Dinas Casnewydd o ran hyrwyddo annibyniaeth ac atal anghenion oedolion hŷn (65+ oed) rhag gwaethygu.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Gweithgaredd â ffocws a gynhaliwyd yn yr awdurdod lleol ar 6 a 7 Mawrth 2019. Y trefniadau gwybodaeth, cyngor a chymorth (pwynt cyswllt unigol) ar gyfer y gwasanaethau plant ac oedolion, gan gynnwys y cynllun peilot i greu hwb diogelu oedolion a phlant.
- Gweithgaredd â ffocws a gynhaliwyd ar 11/04/19 mewn perthynas â'r model Gartref yn Gyntaf a gynhelir ar draws Gwent.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 30 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae'r awdurdod lleol yn elwa ar dîm sefydlog o uwch-reolwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan aelodau sy'n ymrwymedig i egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol. Er bod gan y gwasanaethau plant ac oedolion drefniadau ar wahân er mwyn ymateb i'r rheini y mae angen gwybodaeth, cyngor a chymorth arnynt, maent yn rhannu'r un uchelgais; sef darparu llwybr clir, gwella rhagolygon pobl, diallu eu hanghenion ar y cyfle cynharaf, a galluogi ymateb amlasiantaeth mwy perthnasol. Gwelsom staff rheng flaen uchel eu cymhelliant a oedd yn trin pobl â pharch ac a oedd yn frwdfrydig ac yn deall y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn treialu hwb diogelu oedolion a phlant ar ran ei bartneriaid rhanbarthol ers mis Chwefror 2018. Roedd y staff yn y gwasanaethau oedolion a phlant yn gwerthfawrogi'r trefniadau hyn ond yn credu bod problemau gallu yn golygu nad oedd wedi cyflawni ei botensial eto. Roeddem o'r farn bod y cyfarfodydd dyddiol gyda'r gwasanaethau oedolion a phlant, yr heddlu, y tîm ymyrryd yn gynnar a'r tîm cam-drin domestig, yn fforwm defnyddiol i rannu gwybodaeth, ond roeddem yn credu bod y gwerthusiad cynlluniedig yn gyfle amserol sicrhau ei fod yn gwneud gwahaniaeth ac yn cyflwyno yn erbyn cylch gorchwyl clir a rennir.

Mae recriwtio a chadw staff yn faes a gydnabyddir fel un sy'n hanfodol i fusnes ac mae'r awdurdod lleol yn y sefyllfa ffodus o allu recriwtio pobl i swyddi gwaith cymdeithasol a denu ymarferwyr profiadol. Maent wedi llenwi swyddi gwag ar lefel uwch-reolwyr sydd hefyd yn cynnig cyfle i adolygu trefniadau'r gwasanaeth. Roedd y staff y gwnaethom gyfweled â nhw ar draws y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn gwerthfawrogi ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd ac roedd y mwyafrif yn fodlon ar ba mor aml y cynhaliwyd eu sesiynau goruchwylio ac ansawdd yr oruchwyliaeth honno. Nododd yr arolygwyr y lefel uchel o gyfranogiad gan reolwyr gan ddarparu cymorth ac arweiniad 'byw' ar gyfer gweithrediad beunyddiol y gwasanaeth.

Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a meysydd lle ceir her yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Mae'r tîm cyswllt cyntaf wedi elwa ar gyfathrebu gwell o ganlyniad i gyd-leoli gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd gwahanol sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth uniongyrchol i bobl. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod gwaith parhaus â phartneriaid ehangach yn ofynnol er mwyn sicrhau'r newid mewn diwylliant sydd ei angen i gyflawni disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn y gwasanaethau plant, roedd uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r galw ar wasanaethau gan gydnabod y pwysau ar lwythi gwaith a gallu'r rheolwyr; mae'r awdurdod yn defnyddio staff asiantaeth i reoli swyddi gwag byrdymor yn ôl yr angen. Mae tystiolaeth gadarnhaol o oruchwyliaeth gan y rheolwyr yn y modd y mae rheolwr gwaith cymdeithasol yn 'cymeradwyo' pob achos newydd, gan gynnwys y rheini a gaiff eu dargyfeirio i'r gwasanaethau atal yn gynnar.

Fodd bynnag, yn y gwasanaethau oedolion a phlant, gwelsom ei fod yn anodd gwerthuso ansawdd penderfyniadau'r rheolwyr o'r cofnodion achos a welwyd. Mae angen i'r rheolwyr yn y gwasanaethau oedolion a phlant ddangos i ba raddau maent yn herio'n effeithiol, a chofnodi'r rhesymeg am hynny a'r penderfyniadau cymhwysedd yn y cofnod ysgrifenedig. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio i atgyfnerthu ei drefniadau sicrhau ansawdd er mwyn goruchwyllo ansawdd y gwaith yn well.

- Pobl – llais a rheolaeth

Mae cyfleoedd cynyddol i leisiau oedolion a phlant gael eu clywed wrth asesu eu hanghenion a chynllunio a chyflwyno eu gofal. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i adeiladu ar ei ddiwylliant o gael sgysiau ystyrion gyda phobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Yn y gwasanaethau oedolion, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi dull sicrhau ansawdd ar gyfer cydraddoldeb, cysondeb a chanlyniadau ar waith ym mhob tîm. Nod y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar gryfderau yw sicrhau bod oedolion yn cael eu trin yn deg. Roedd y staff yn gadarnhaol am y dull gweithredu ac yn credu ei fod yn helpu i wella cysondeb o ran cymhwysedd i dderbyn gwasanaethau a'r ffordd y caiff canlyniadau eu nodi.

Mae'r gwasanaethau oedolion wedi datblygu ystod o fentrau yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn hyrwyddo annibyniaeth y bobl, er enghraifft arweiniad hunangymorth ar-lein dwyieithog o'r enw AskSara ar gyfer cyfarpar byw'n annibynnol. Mae'r awdurdod hefyd wedi ymgymryd â rhaglen o hyfforddiant asesu galluedd meddyliol i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol sy'n gymwys i gynnal asesiadau o alluedd meddyliol yn cefnogi'r bobl heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau pwysig.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod bod nifer y bobl sy'n rheoli eu gofal eu hunain drwy ddarparu Taliadau Uniongyrchol wedi bod yn gyndyn iawn o gynyddu (oddeutu 20 taliad uniongyrchol i bobl hŷn) ac mae wedi nodi hyn fel maes i'w wella.

Yn y gwasanaethau plant, gwelsom nad oedd yr arfer gwaith cymdeithasol da a ddisgrifiwyd gan y staff i geisio dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i deulu yn cael ei ddangos yn gyson yng nghynnwys cofnodion ysgrifenedig. Mae'r awdurdod lleol yn y broses o ymgorffori System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru o hyd a nododd y staff yn y gwasanaethau plant nad yw'r templedi presennol yn hawdd i'w defnyddio.

Yn y gwasanaethau plant, mae angen gwneud gwelliannau cyffredinol i sicrhau bod dull gweithredu mwy cydgynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio i asesu a chynllunio gofal. Gwelsom rai asesiadau a oedd wedi'u dyblygu ac asesiadau nad oeddent wedi arwain at gynllun gofal a chymorth amserol. Mae angen i'r awdurdod lleol ystyried y ffordd y mae plant a'u teuluoedd yn deall ac yn profi'r rhyngweithiad hwn a sicrhau nad yw cyfleoedd i gefnogi newid cynnar yn cael eu colli.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu yn y gwasanaethau plant yn ddiweddar ac mae pwysau sylweddol ar ddigonolrwydd lleoliadau. Mae'r awdurdod lleol wedi ymgymryd â gwaith helaeth i atgyfnerthu ei broffil poblogaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'r rheini ar ymylon gofal. Cydnabyddir bod angen blaenoriaethu'r gwaith hwn a bydd yn cefnogi'r gwasanaethau plant a'u partneriaid i werthuso effeithiolrwydd eu strategaethau atal a rheoli risgiau, ac i ragweld anghenion presennol ac yn y dyfodol o ran adnoddau, lleoliadau a'r gweithlu.

Mae'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wedi'i ymgorffori yn y broses gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y gwasanaethau plant ac oedolion. Roedd yn gadarnhaol nodi bod aelodau o staff yn y timau a oedd yn gallu cyfathrebu yn ieithoedd Wrddw, Pwnjabeg a Shona hefyd.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i hyrwyddo atal, ymyrryd yn gynnar a sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi'n well i gyflawni eu canlyniadau personol eu hunain. Mae uwch-reolwyr wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu gwasanaeth amlasiantaeth ar gyfer y rheini y mae angen gwybodaeth, cyngor a chymorth arnynt. Gwelsom enghreifftiau o faterion newydd a oedd yn effeithio ar bobl yn cael eu datrys yn gyflym gyda'r bobl yn cael eu cyfeirio'n briodol ar wasanaethau anstatudol.

Gwelsom dystiolaeth bod tîm cyswllt cyntaf y gwasanaethau i oedolion yn cynnal asesiadau cymesur a oedd yn archwilio 'yr hyn sy'n bwysig' i berson ac yn darparu'r cymorth y mae ei angen arnynt, neu'n eu cyfeirio ato, drwy'r gwasanaethau ataliol lle y bo'n berthnasol. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd ar waith i ddatblygu dull gweithredu mwy cydlynol gyda phartneriaid mewn perthynas â gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal i gefnogi pobl i barhau'n annibynnol a lleihau ynysu. Er enghraifft, mae Strategaeth Byw'n Annibynnol wedi atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu atebion llety a chymorth i ddiwallu anghenion pobl hŷn ag anabledau dysgu.

Mae cynnwys y gwasanaethau ataliol yn yr un gyfarwyddiaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol i blant wedi'i sefydlu'n dda ac mae cydberthnasau gweithredol agos rhwng y tîm cymorth i deuluoedd, y tîm atal a'r gwasanaethau plant. Roedd y rheolwyr yn gwerthfawrogi presenoldeb y tîm atal yng nghyfarfod dyddiol yr hwb diogelu ac yn credu bod hyn yn cryfhau'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a phenderfyniadau 'camu i lawr'. Fel gydag awdurdodau lleol eraill, nodwyd bod gofynion cyllid grant yn rhwystro plant a theuluoedd gydag anghenion cymwys ac anghenion nad ydynt yn gymwys rhag cael rhai gwasanaethau ataliol.

Mae gan yr awdurdod lleol bartneriaeth sefydledig a gaiff ei gwerthuso'n allanol gyda Barnardos sy'n darparu Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig sy'n canolbwyntio'n benodol ar y plant hynny sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal neu y mae angen eu hamddiffyn. O ystyried y cynnydd diweddar yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, mae'r

awdurdod lleol wedi estyn y ddarpariaeth hon i ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o atal teuluoedd rhag chwalu, tynnu plant o sefyllfaoedd yn ogystal â lleihau nifer y lleoliadau sy'n chwalu a gwella'r canlyniadau hirdymor i blant yn lleoliadau gofal yr awdurdod lleol.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi sefydlu Grŵp Adolygu Achosion Oedolion a Phlant ar y Cyd i ystyried pob atgyfeiriad am APR a CPR. Mae hyn wedi gwella dysgu a rennir ar draws y ddau sector ac mae'n cefnogi gweithio ar y cyd.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaeth

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu gyda phwyslais allweddol ar weithio mewn partneriaeth. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol mewn comisiynu, cyllidebau cyfun a chynyddu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gyflwynir yn rhanbarthol. Er mwyn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, mae angen ymrwymiad sylweddol a pharhaus gan yr holl uwch-reolwyr ac mae cydbwysu hyn â'r cynnydd a nodwyd mewn galw a'r pwysau ar lwythi gwaith yn her.

Mae diogelu oedolion a phlant wedi bod yn ffocws gwaith sylweddol i gynllunio a chefnogi rheolaeth. Mae cyfathrebu wedi gwella'n fewnol a chyda sefydliadau partner wrth ddatblygu cynllun peilot yr hwb diogelu oedolion a phlant. Fodd bynnag, mae absenoldeb partneriaid allweddol fel iechyd ac addysg yn y cyfarfod dyddiol yn siomedig ac mae'r staff wedi codi materion ynghylch cadernid cyffredinol y gwasanaeth. Mae'r trefniadau peilot bellach yn destun gwerthusiad ac mae buddion estyn yr aelodaeth amlasiantaeth yn cael eu trafod.

Yn y gwasanaethau plant, mae atgyfeiriadau proffesiynol yn defnyddio ffurflen atgyfeirio amlasiantaeth ddiwygiedig. Er gwaethaf y cyngor ysgrifenedig manwl cysylltiedig a ddarperir i bartneriaid, gwelsom fod ansawdd atgyfeiriadau proffesiynol yn anghyson. Mae adolygu trefniadau'r hwb diogelu yn gyfle i ddysgu o arfer a gloywi hyfforddiant amlasiantaeth er mwyn sicrhau bod y trothwyon a'r disgwyliadau atgyfeirio ar gyfer y gwasanaethau plant statudol a'r gwasanaeth ymyrryd yn gynnar yn cael eu rhannu, eu deall a'u perchenogi gan y partneriaid. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y gwasanaethau plant wedi nodi 'pwyntiau cyswllt penodol' gyda phartneriaid nad oeddent yn cael eu cynrychioli yn yr hwb diogelu yn ddiweddar er mwyn helpu i wella amseroldeb, er enghraifft ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwiriadau ochrol.

Yn y gwasanaethau oedolion, mae sefydlu'r Gwasanaeth Gartref yn Gyntaf yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn enghraifft o gydweithio rhwng pum awdurdod lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chyrff cyhoeddus eraill. Yn yr amser byr

ers i'r tîm gael ei sefydlu, mae wedi llwyddo i atal pobl rhag cael eu derbyn i ysbytai'n ddiangen a helpu i ryddhau cleifion yn amserol. Mae cydweithwyr ym maes iechyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth Gartref yn Gyntaf ac mae'n dangos gweithio blaengar, cydweithredol ac integredig gan sicrhau canlyniadau da i bobl drwy gynnal sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig' ac adeiladu ar gryfderau pobl.

Mae sefydlu'r Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl yn Ystafell Reoli Heddlu Gwent yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth ac yn gydweithredol rhwng pum awdurdod lleol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Awdurdod Heddlu Gwent.

Gwnaethom ymweld â'r tîm, ac er bod hwn yn brosiect eithaf newydd, mae'r data sydd ar gael wedi dangos bod nifer yr achosion pan anfonwyd yr heddlu i ddigwyddiadau wedi lleihau a bod faint o amser y mae'r heddlu'n ei dreulio'n ymdrin â digwyddiadau wedi lleihau hefyd. Yn ogystal, mae arwyddion bod canlyniadau pobl yn cael eu gwella drwy gyfeirio at wasanaethau mwy priodol a thrafod mynediad atynt yn ogystal â thrwy leihad yn nifer y bobl sy'n cael eu cadw o dan Adran 136.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl yn yr arolygiad thematig o'r gwasanaethau plant. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad o waith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/20 i arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Byddwn hefyd yn ymgymryd â dau weithgaredd â ffocws yn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a chaiff manylion y rhain eu cadarnhau.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn